**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020 am 5.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams
Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd L De Vet
Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd S.Evans
Y Cynghorydd M Fidler Jones
Y Cynghorydd M Forey
Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd H Fychan
Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd S Pickering
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd R Turner
Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd R Yeo

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**43 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriad o absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J R Davies, A Davies-Jones, K Jones, L Jones, K Morgan, M Tegg, M Weaver, G D Williams a C Willis.

**44 Cyflwyniadau**

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sir M Webber (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp - Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llafur)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp - Dirprwy Arweinydd y Grŵp Ceidwadol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak (Aelod Annibynnol)

**45 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd nifer o ddatganiadau o fuddiant eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 6 ar yr Agenda - Diweddariad Mewn Perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf**

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - “Mae fy mhartner yn gweithio i Garfan Brechu Iechyd Cyhoeddus Cymru”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - “Rwy'n wirfoddolwr ar gyfer Banc Bwyd Trussel Merthyr Tudful”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill - “Mae'n bosibl y bydd fy musnes yn gymwys i gael grant busnes”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Fidler Jones - “Fi oedd y swyddog arweiniol ar waith Gofal Canser Tenovus sy'n tynnu sylw at effaith y cyfyngiadau symud ar roi diagnosis o ganser”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies - “Rydw i wedi derbyn grant Covid-19 ar gyfer fy musnes”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies - “Rwy’n aelod o’r Clwb Tenis sydd hefyd wedi derbyn grant Covid-19”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G R Davies - “Rwy'n gwirfoddoli ar gyfer Banc Bwyd Cwm Rhondda a chyflwynais i gais ar gyfer y caffi yn y Capel”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Chapman - “Rydw i wedi derbyn grant Covid-19 ar gyfer fy musnes, 'The Wonder Stuff' yn Nhreorci”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Owen - “Rydw i wedi derbyn grant Covid-19 ar gyfer fy Eiddo Trwyddedig”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones - “Fi yw Cadeirydd y Llyfrgell”

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E George - “Rwy'n wirfoddolwr ar gyfer Banc Bwyd Trussel Merthyr Tudful”

**46 Atal Rheolau Sefydlog**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

**47 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2020, yn rhai cywir.

**48 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i'r Cynghorydd Powell, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad:**

“Pa ystyriaethau ydy'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad yn eu rhoi i ganlyniadau ariannol tebygol Brexit Heb Gytundeb nes ymlaen eleni?”

**Ymateb gan y Cynghorydd M Powell:**

Dywedodd y Cynghorydd Powell ei bod hi'n anodd rhagweld y goblygiadau ariannol posibl yn gywir oherwydd yr holl ansicrwydd mewn perthynas â Brexit, ac mae'n bosibl na fydd effaith Brexit yn cael ei theimlo ar unwaith, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cost nwyddau yn cynyddu os ydyn ni'n wynebu tariffau Sefydliad Masnach y Byd. Mae hi hefyd yn anodd asesu'r effaith ar y Cyngor yma gan ei bod hi'n bosibl na fydd rhai cyflenwyr yn trosglwyddo cost unrhyw dariffau i'r Cyngor a chwsmeriaid. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o newid da a drwg o ran gwerth punt sterling, ac mae'n bosibl y bydd hi'n rhy anodd rhagweld hyn. Mae'n bosibl y bydd un gost yn gwrthbwyso'r llall neu y bydd effaith ddwbl wrth gyflwyno'r tariffau a gwerth sterling yn gostwng. O ganlyniad, mae modd i hyn arwain at gynnydd dau ddigid o ran cost nwyddau wedi'u mewnforio o'r UE a gallai hyn gael effaith ar weithwyr neu deuluoedd incwm isel sy'n gwario'r rhan fwyaf o'u hincwm ar fwyd a nwyddau.

Mae'r Cyngor yn cadw llygad ar yr holl faterion sy'n ymwneud â Brexit ac yn aelod o Weithgor Brexit CLILC. O ran y goblygiadau ehangach, mae'r Cyngor yn cyfathrebu â chynifer o fusnesau ag sy'n bosibl er mwyn rhannu cyfarwyddyd clir gan LC ac yn diweddaru gwefan y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Powell y byddai'n rhannu manylion ei ddatganiad a'i hyperddolenni perthnasol. Bydd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael ei lansio'r wythnos yma. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar godi

ymwybyddiaeth ar gyfer busnesau a Chynllun Preswylydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Bydd y Cabinet hefyd yn trafod yr adroddiad yn ystod ei gyfarfod ar 17 Tachwedd 2020 ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar draws y Cyngor er mwyn paratoi ar gyfer Brexit"

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd G Hughes**:

“Mae'n amlwg eich bod chi, yn rhan o'ch rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad, yn gweld y bydd Brexit Heb Gytundeb yn cael effaith negyddol sylweddol ar RCT. Rwy'n rhannu'ch pryderon ynghylch yr effaith niweidiol posibl y bydd Brexit heb Gytundeb yn ei chael ar ein heconomi. Tybed sut y bydd modd i chi, a chithau'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad gysoni eich barn â'ch rôl fel Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT sy'n cynnwys aelod cofrestredig o'r Blaid Brexit ac un arall sydd o blaid Brexit ”

**Ymateb gan y Cynghorydd Powell:**

Dywedodd y Cynghorydd Powell fod unigolion yn unigolion ac na fyddai’n pennu barn ei aelodau ac mae ystod eang o safbwyntiau o fewn y Grŵp. Mae gan y Grŵp ddealltwriaeth dda o'r effeithiau y bydd penderfyniadau yn eu cael ar drigolion y Fwrdeistref ac mae'r Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad yn eu rhannu nhw ag aelodau Grŵp Annibynnol RhCT.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Powell at effaith treth y Cyngor yn dilyn canlyniad Brexit, sy’n cyfateb i 20% o gyllideb y Cyngor, gyda £49miliwn yn cael ei gasglu gan ardal Taf Elái, £27miliwn yng Nghwm Rhondda a thua £26.5miliwn yng Nghwm Cynon. Holodd y Cynghorydd Powell sut y byddai modd i'r Cyngor ofyn i'r trigolion hynny dalu Treth y Cyngor gan ystyried costau bywyd bob dydd sy'n cynyddu.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher i’r Aelod o’r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a’r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins:**

“A oes modd i'r Cyngor rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ar y cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhontypridd? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd G.Hopkins:**

Dywedodd y Cynghorydd Hopkins fod y gwaith ar gyfleuster newydd Cwrt yr Orsaf sydd â 60 fflat wedi dechrau yn Haf 2019 ac mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos â Link Cymru, y Gymdeithas Tai a'i gontractwr Jehu gan gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Construction Leadership mewn perthynas â mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae'r gwaith adeiladu wedi parhau i fynd rhagddo ac mae cynnydd da wedi'i wneud ar y cynllun. Mae'r gwaith ar y strwythur dur concrid a'r strwythur ysgafn wedi cael ei gwblhau ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar waith y tu fewn i'r adeilad. Gwaith mewnol sy'n cael ei gwblhau'n bennaf ar hyn o bryd, a bydd y dyddiad cwblhau sydd wedi cael ei ragweld, mis Awst 2021, yn cael ei adolygu'n rheolaidd. "

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd J. Brencher**:

“Sut bydd y gymuned ehangach a thrigolion Pontypridd a'r Graig yn elwa o'r cyfleuster?"

**Ymateb y Cynghorydd G Hopkins**:

“Roedd y Cynghorydd G Hopkins yn gobeithio y bydd y cyfleusterau Gofal Ychwanegol yn cael eu hystyried yn rhan o’r gymuned nid fel cyfleusterau ar wahân. Cyfeiriodd at y modelau Gofal Ychwanegol ym Maes-y-ffynnon a safle Tŷ Heulog, sydd eisoes wedi'i sefydlu, er mwyn rhoi enghreifftiau o'r manteision y mae'r ddau yn eu cynnig i'r gymuned. Mae gan safle Maes-y-ffynnon siop trin gwallt, caffi, ystafell therapi, ystafell fyw, ystafell weithgareddau, maes parcio a gardd sy'n cael ei chynnal yn rhan o bartneriaeth ag Ysgol Gynradd Blaen-gwawr, sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifainc gwrdd â phobl hŷn. Bydd Cwrt yr Orsaf yn cynnwys nifer o gyfleusterau tebyg megis siop trin gwallt, mannau bwyta a chegin ac ystafelloedd byw. Bydd y cyfleuster yn canolbwyntio ar sicrhau annibyniaeth a chefnogi trigolion i fod yn rhan o'r gymuned, nid ar wahân iddi."

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A fyddai modd i Arweinydd wneud datganiad ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ar waith trwsio'r Bont Wen ym Mhontypridd os gwelwch yn dda?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

“Dywedodd yr Arweinydd fod 3 phont ym Mhontypridd wedi cael eu difrodi yn ystod Storm Dennis a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar bob pont. Mae Centergrade wedi cael ei benodi'n gontractwr ar gyfer Pont Parc Ynysangharad, mae'r gwaith wedi dechrau ac mae'r bont wedi cael ei chodi a'i gosod yn y parc, dylai'r bont gael ei symud yn ôl erbyn diwedd mis Ionawr, dechrau mis Chwefror 2021. Mae Pont Castle Inn wedi dioddef difrod mawr ac mae'n bosibl y bydd angen dymchwel y bont. Mae archwiliad wedi cael ei gyflawni gan beirianwyr ond mae'n debygol y bydd angen dymchwel y bont. Mae peirianwyr cymwys wedi archwilio'r Bont Wen ac yn gweithio arni i asesu a oes modd codi'r bont ac a yw'n ddigon diogel i weithio arni gan fod 85% o strwythur y bont wedi'i ddifrodi yn ystod y stormydd. Mae sefyllfa'n cael ei monitro'n wythnosol. Cyn y storm, roedd pob pont yn cael ei harchwilio bob blwyddyn a phrif archwiliad yn cael ei gynnal unwaith bob 6 blwyddyn ac yn unol â'r canllawiau.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Powell**:

“A oes adroddiadau eraill sy'n dangos pa waith sydd wedi cael ei gyflawni ar y Bont Wen mewn perthynas â'r strwythur a sgwrio nad oedd wedi digwydd ar un diwrnod yn unig? Byddai nifer o drigolion yn hoffi gweld y bont yn ailagor fel llwybr i gerddwyr neu lwybr beicio ond mae yna broblemau hefyd ar Heol Berw, sy'n effeithio ar iechyd a lles trigolion yr ardal. A yw'r Arweinydd wedi ystyried y cynlluniau cynharach o 2001 mewn perthynas â gosod ffordd gyswllt ar draws y cwm o ardal Glyn-coch i'r A470 neu newid y system draffig fel bod modd troi i'r chwith yn unig er mwyn lleihau'r traffig (roedd y Cynghorydd Powell wedi diolch i'r Arweinydd am drefnu bod camerâu cyflymder yn cael eu gosod)?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**

“Dywedodd yr Arweinydd nad oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i archwilio’r opsiwn ar gyfer ffordd gyswllt oherwydd diffyg cyllid sydd ar gael yn y Rhaglen Gyfalaf a’r amser sydd ar gael i brynu tir ac adeiladu. Yr opsiwn sy'n cael ei

ffafrio gan y Cyngor yw trwsio'r bont fel bod modd ei hailagor ond os nad oedd hynny'n bosibl, byddai'r Cyngor yn edrych ar osod strwythur newydd, mae trafodaethau'n parhau gyda LIC ynghylch cyllid ar gyfer gwaith trwsio a gosod pont newydd. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gwblhau yn ystod y 4-6 wythnos nesaf, yna bydd modd i'r Cabinet benderfynu naill ai fwrw ymlaen â'r gwaith trwsio neu osod pont newydd a phenodi contractwyr sifil er mwyn cychwyn y gwaith. I gloi, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y difrod sgwrio wedi digwydd yn ystod Storm Dennis a does dim byd yn awgrymu bod y difrod wedi digwydd cyn y storm ond cytunodd yr Arweinydd i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Cynghorydd Powell"

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R K Turner i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“A oes modd i Arweinydd y Cyngor amlinellu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â datblygu ffordd osgoi Llanharan os gwelwch yn dda?”

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**

“Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod £1.1miliwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar 24 Medi 2020. Mae hyn yn golygu bod cyllid gwerth £2,775.000 ar gael ar gyfer y cynllun, sy'n cynnwys cyllid y Cyngor a chyllid gan Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru ac mae'n cynrychioli un o'r prosiectau strategol a fydd yn cael eu cyflawni. Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag un rhan o'r prosiect, bydd y Datblygwr Tai yn cyflawni'r rhan ganol ar y safle. Bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno erbyn y gwanwyn a bydd proses ymgynghori cyn-gynllunio yn cael ei chynnal cyn hynny. Bydd y ffordd osgoi ar agor i'r cyhoedd erbyn 2025 ”.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Turner**:

“A oes modd i'r Arweinydd ddarparu cadarnhad ynglŷn â rhan ganol y ffordd osgoi, a fydd yn cael ei hadeiladu gan y datblygwyr i gyd-fynd â thŷ rhif 801, sy'n rhan hollbwysig o gynllun y Ffordd Osgoi. Allwch chi ddweud beth sy'n cael ei wneud i sicrhau nad yw hyn yn achosi oedi mewn perthynas â'r ffordd osgoi? "

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**
“Dywedodd y Cynghorydd A Morgan y byddai bwrw ymlaen â'r cynllun fel un cynllun parhaus yn rhoi sicrwydd o ran yr amseru ac o ran y broses gaffael. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn edrych ar y trefniadau cyfreithiol gyda'r Datblygwr Tai. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ni o ran y pwynt cychwyn ar gyfer y cyllid, bydd hyn yn ein caniatáu ni i fwrw ymlaen â'r cynllun. Erbyn dechrau'r gwanwyn bydd gennym ddyddiad mwy diffiniol a bydd modd cyflwyno cais cynllunio. "

**49 Rhaglen Waith Y Cyngor 2020/21**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cyngor ar gyfer 2020/21. Rhoddodd wybod fod y Cyngor yn cynnig cynnal Dadl yr Arweinydd yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd er mwyn trafod nifer o faterion pwysig eraill yn ystod y cyfarfod ar 25 Tachwedd. Mae manylion ynghylch y sesiwn Paratoi ar gyfer y Gaeaf wedi cael eu rhannu ymlaen llaw. I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfod y Cyngor ar 16 Rhagfyr.

**50 Diweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf**

Dywedodd yr Arweinydd fod diweddariad mewn perthynas â Covid wedi'i ddarparu ym mhob cyfarfod o'r Cyngor dros y ddau fis a hanner diwethaf. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu ar 25 Tachwedd. Cadarnhaodd fod trafodaethau yn parhau gyda LIC ynghylch posibiliadau cynllun profi torfol i benderfynu ai hwn yw'r ffordd ymlaen. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ynghylch rhaglen frechu a hefyd gyda chynllunwyr y fyddin. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r awdurdod lleol yn darparu pa bynnag adnoddau sydd eu hangen i sefydlu canolfannau brechu a byddai gwasanaethau'n cael eu newid neu eu cau i alluogi rhaglen frechu pe byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud mai dyna oedd y ffordd orau ymlaen. Byddai cefnogi'r Fyddin a'r Bwrdd Iechyd yn flaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Pwysleisiodd yr Arweinydd y neges iechyd cyhoeddus y mae angen ei dilyn o hyd yn dilyn y cyfnod atal byr o bythefnos, gwisgo gorchuddion wyneb, golchi dwylo a chadw pellter cymdeithasol ac anogodd yr Aelodau i fanteisio ar y dylanwad sydd gyda nhw ar y cyfryngau cymdeithasol i atgoffa trigolion i beidio â chysylltu ag eraill yn ormodol, lleihau nifer y teithiau maen nhw'n eu gwneud ac aros yn lleol. Cafodd y cyfnod atal byr effaith sylweddol ar nifer yr achosion positif, ond mae'n bosibl y bydd nifer yr achosion yn cynyddu eto.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod am farwolaeth drist aelod o staff arall o ganlyniad i covid-19 ac roedd yn dymuno estyn ei gydymdeimlad i'r teulu ar ran pob Aelod.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod adran gyllid y Cyngor yn parhau i dalu grantiau cymorth i fusnesau, mae'r adran wedi bod yn prosesu'r grantiau cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae £3miliwn wedi cael ei dalu hyd yn hyn, er bod rhywfaint o ddryswch wedi bod ynghylch pa grantiau y mae modd gwneud cais amdanyn nhw'n ddiweddar. Anogodd fusnesau lleol i ddilyn y canllawiau sydd ar wefan y Cyngor er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r gwahaniaethau rhwng y grantiau sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae cymorth ychwanegol hyd at £15,000 wedi bod ar gael i'r Banciau Bwyd yn ystod y cyfnod atal byr, ac mae'r Cyngor wedi comisiynu cymorth iechyd meddwl gwerth £10,000.

Yn rhan o gyflwyniad power point, dangosodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd hefyd yn dangos yr ardaloedd hynny lle mae'r nifer uchaf o achosion coronafeirws a hefyd yn dangos lleoliad y canolfannau profi teithiol, sydd wedi'u lleoli'n agos at yr ardaloedd hynny sydd â'r cyfraddau uchaf er mwyn gwella hygyrchedd i'r canolfannau ac annog trigolion i gael prawf os ydyn nhw'n sâl. Mae'r safleoedd yn cael eu hadolygu a'u hadleoli'n rheolaidd ble'n addas.

Roedd rhan arall o'r cyflwyniad yn dangos nifer yr achosion positif sydd wedi'u cadarnhau bob dydd dros y 2 wythnos ddiwethaf yn ardal Cwm Taf Morgannwg, ac mae'r rhain wedi'u dadansoddi i ddangos nifer yr achosion ym mhob Awdurdod Lleol. Roedd y sleid nesaf yn dangos bod nifer yr achosion yn gostwng ar hyn o bryd yn dilyn y cyfnod atal byr ac yn ystod yr wythnos ddiwethaf mae nifer yr achosion wedi dechrau arafu ac yn dechrau gostwng.

Dangosodd y sleid nesaf y cyfraddau o achosion positif yn ystod yr un cyfnod,

mae'r rhain yn cynrychioli cyfran y bobl sy'n mynd am brawf ac sy'n cael canlyniad positif. Po uchaf yw'r gyfradd o achosion positif, y mwyaf tebygol yw hi bod mwy o achosion yn y gymuned. Mae'r gyfradd o achosion positif wedi parhau i fod yn uchel yn RhCT ac ar draws y rhanbarth, ond mae gostyngiad wedi bod yn y gyfradd o achosion positif, dros y 7 diwrnod diwethaf y gyfradd o achosion positif ar gyfartaledd yw 23.3%.

Dangosodd y sleid nesaf y gyfradd o achosion positif ar draws y rhanbarth yn ôl grŵp oedran ac mae'n dangos bod y grŵp oedran 40-49 yn profi'r nifer uchaf o achosion positif, ond mae nifer yr achosion wedi'i rannu'n weddol gyfartal ar draws y grwpiau gwahanol. Mae proffil oedran Pen-y-bont ar Ogwr ychydig yn wahanol ac mae'n dangos bod niferoedd uwch o achosion positif ymhlith y grwpiau oedran iau.

Dangosodd y sleid nesaf y duedd wythnosol mewn perthynas â marwolaethau Covid-19 yn ystod y Pandemig yn ardal Cwm Taf Morgannwg ac sydd wedi'u cyhoeddi, mae'r rhain wedi'u nodi yn ôl lleoliad. Mae hyn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Mawrth a diwedd mis Hydref, ac mae effaith y don gyntaf o'r haint yn amlwg. O fis Gorffennaf hyd at ddechrau mis Medi roedd nifer isel o farwolaethau yn gysylltiedig â covid ond mae effaith y pandemig yn amlwg o ganol mis Medi ymlaen . Mae nifer y marwolaethau o'i gymharu â'r don gyntaf yn is ond mae'r gyfran uchaf o farwolaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi digwydd mewn ysbytai.

Roedd y sleid olaf yn dangos cyfanswm yr achosion dros y 7 diwrnod diwethaf fesul 100,000 o bobl. Y cyfnod dan sylw yw 15 Medi hyd at 8 Tachwedd, ac mae'n dangos cynnydd cyson yn nifer yr achosion ac yna cynnydd sydyn hyd at ddiwedd mis Tachwedd. Yn ystod y diwrnodau diwethaf, mae gostyngiad wedi bod yn nifer yr achosion. Mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau'r Cyfnod Atal Byr dros y pythefnos diwethaf yn dangos effaith y mesurau hynny. Mae'n galonogol gweld bod y duedd yma o ostyngiad yn nifer yr achosion positif i'w gweld ledled Cymru. Cyfradd yr achosion positif yn RhCT heddiw yw 400 fesul 100,000, sy'n is na'r gyfradd yr wythnos ddiwethaf.

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o waith y Garfan Olrhain Cysylltiadau yn RhCT sydd hefyd yn darparu'r gwasanaeth ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Ers mis Mehefin 2020, cafodd y gwasanaeth wybod am 9,114 o achosion, mae hyn yn cynrychioli 23% o gyfanswm yr achosion yng Nghymru. Mae'r garfan wedi llwyddo i gysylltu â 97% o'r unigolion, gan gysylltu â 78% o unigolion o fewn y 48 awr cyntaf. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 75%. Yn ystod yr un cyfnod, roedd dros 28,000 o gysylltiadau'n gysylltiedig â'r 9000 o achosion hynny. Rydyn ni wedi cysylltu â 90% o'r rheiny'n llwyddiannus, ac roedd 78% o'r rheiny o fewn 48 awr. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 73%. Mae'r cyflawniad, ar y cyfan, wedi bod yn eithriadol.

Rhoddwyd y cyfle i Arweinwyr Grwpiau ofyn cwestiynau i Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned.

**Y Cynghorydd P Jarman – Arweinydd Grŵp Plaid Cymru**

Rhoddodd y Cynghorydd P Jarman glod i'r Garfan Olrhain Cysylltiadau. Nododd y Cynghorydd Jarman ei bod yn gwaredu at y rhai sy'n gwadu Covid tuag at y teulu a gollodd 3 aelod o'r teulu yn ddiweddar o ganlyniad i Covid-19.

O ran yr achosion y soniodd y Cynghorydd Jarman amdanyn nhw ddoe, roedd 55 o achosion positif newydd ddoe ac mae 155 o achosion positif newydd heddiw. Felly, mae cynnydd a gostyngiad i'w gweld yn nifer yr achosion newydd ac mae'n anodd i'r cyhoedd rannu optimistiaeth y Cyfarwyddwr o ran y cynnydd yn nifer yr achosion positif. Gofynnodd y Cynghorydd, os bydd yn dod i'r amlwg, a fydd y profi torfol yn drefniant lleol neu'n ddarpariaeth ledled y DU? Ym mis Ebrill, dim ond 40 o brofion a gafodd eu cynnal yn y ganolfan brofi yn Abercynon a ddisgrifiwyd yn ganolfan profi torfol.

Gofynnodd y Cynghorydd a fyddai modd i'r Cyfarwyddwr egluro'r gyfraith o ran gwisgo masgiau gan fod trefniadau cenedlaethol disodli trefniadau lleol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod gofyniad o hyd i wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus penodol ac anogir pobl eu gwisgo nhw mewn rhai amgylchiadau, megis gyrwyr bysiau, er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, ac mewn lleoliadau gwaith ac amgylcheddau risg uchel lle mae'n hanfodol gwisgo CDP. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'n rhannu'r canllawiau mewn perthynas â gochuddion wyneb yn dilyn y cyfarfod.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod mai'r rhif pwysig o ran y cyfraddau y soniodd y Cynghorydd Jarman amdanyn nhw yw'r rhif cyfartaledd treigl 7 diwrnod a'r cyfraddau dyddiol o ran achosion positif. Heddiw, mae'r cyfraddau 7 diwrnod o ran achosion positif yn dangos bod gan RCT gyfradd o 30% sydd bellach wedi gostwng i 24%, sef gostyngiad o 6% yn y gyfradd o ran achosion positif. Yn dilyn y cyfnod atal byr, disgwylir y bydd gostyngiad yn y cyfraddau cyn iddyn nhw ddechrau cynyddu.

**Y Cynghorydd M Powell – Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT**

O'r graffiau rydyn ni wedi'u gweld, does dim mannau tywyll sy'n dangos y niferoedd uchel o achosion Covid-19 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg na weithredodd ei gynllun 15 pwynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu nifer y marwolaethau o drigolion sy'n dal Coronafeirws, neu sydd wedi marw o ganlyniad i Coronafeirws, mewn ysbyty yn ôl eu mannau preswylio.

Oes modd i'r Cyngor helpu Heddlu De Cymru i ddal yr unigolion hynny a oedd yn rhan o'r digwyddiad o drais ar Noson Tân Gwyllt yn Rhydyfelin a arweiniodd at anafu Swyddog yr Heddlu?

Croesawodd y Cynghorydd Powell y cynllun profi torfol i reoli'r feirws.

**Y Cynghorydd L Hooper – Dirprwy Arweinydd y Grŵp Ceidwadol**

Rhoddodd y Cynghorydd Hooper ddiolch i Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned am adroddiad cynhwysfawr a chroesawodd y cyfle i ofyn cwestiynau i'r Bwrdd Iechyd pan oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

**Y Cynghorydd S Belzak – Grŵp Annibynnol**

Nododd y Cynghorydd Belzak fod y data ar farwolaethau ledled ardal Cwm Taf Morgannwg yn dangos bod y clefyd yma'n dymhorol. Roedd cynnydd yn nifer y marwolaethau ym mis Ebrill, gan ostwng i bron i sero ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst, ac yn cynyddu'n raddol eto. Ychwanegodd trwy nodi ein bod ni yn y tymor o salwch anadlol ac mae gostyngiad o 98% yn nifer yr achosion o'r

ffliw. Nododd y Cynghorydd Belzak fod y feirws wedi dod yn salwch tymhorol a dydy rhoi mesurau eithafol ar yr economi ddim yn ymateb addas.

Yn ôl data DU gyfan o ran nifer y marwolaethau gartref, mae nifer sylweddol o farwolaethau nad oes modd eu priodoli i Covid-19. Nododd y Cynghorydd Belzak nad yw pobl bellach yn cael triniaeth ar gyfer salwch difrifol megis strôc neu drawiad ar y galon, ac mae angen mynd i'r afael â hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd W Owen a oes gan y Cyngor ddigon o adnoddau yn ei Adran Drwyddedu i fynd i'r afael â phroblemau cynyddol o achosion o beidio â chydymffurfio
mewn tafarnau yn dilyn y newid i'r rheoliadau fel bod modd i hyd at 4 aelwyd gwrdd?

Ymatebodd yr Arweinydd i nifer o ymholiadau a chadarnhaodd, mewn perthynas â brigiadau Ysbyty Brenhinol Morgannwg Bwrdd Iechyd Cwm Taf, fod mannau ychwanegol yn cael eu defnyddio er mwyn cadw'r rheiny sydd â Covid-19 ar wahân. Aeth ymlaen i nodi nad yw nifer y marwolaethau mewn ysbytai yn cael ei gofnodi ar y mapiau a gafodd eu dangos yn gynharach. Mae cyfanswm y marwolaethau mewn ysbytai yn cyfateb i lai na 3% o'r cyfanswm cyffredinol. Cyfanswm yr achosion mewn ysbytai yw tua 200 ond wrth roi cyd-destun, cofnododd RhCT 300 o achosion mewn un diwrnod. Nid ysbytai sy'n gyrru nifer yr achosion, ac mae'n cyfateb i 7%. Mae'r holl achosion sy'n berthnasol i ysgolion yn cyfateb i 15%. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod trosglwyddo yn y gymuned yn parhau i fod y ffordd fwyaf tebygol o ddal y feirws.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned mai'r man preswylio sy'n cael ei nodi yn achos y marwolaethau mewn ysbytai ond mae'r marwolaethau sy'n cael eu cofnodi mewn ysbytai yn cael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Iechyd ac maen nhw'n gysylltiedig â Covid-19, nid o reidrwydd o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19. Byddai unrhyw un o'r unigolion wedi cael prawf positif yn ystod cyfnod o 28 diwrnod cyn y marwolaeth.

O ran gorfodi, mae cyllid wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio staff gorfodi ychwanegol i weithio ochr yn ochr â staff gorfodi'r Cyngor sydd wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda Heddlu De Cymru yn ystod y cyfnod yma. Mae'r Heddlu hefyd wedi sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer cynnal gwaith gorfodi. Mae'r adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y Fasnach Drwyddedu yn glynu wrth y gofynion a, lle bo'n angenrheidiol, mae'r Cyngor wedi cau nifer o eiddo ac mae eraill yn wynebu adolygiad o'u trwyddedau lle nad ydyn nhw wedi glynu wrth y rheolau.

Codwyd nifer o ymholiadau eraill mewn perthynas â'r brechlyn megis rôl y Cyngor o ran cefnogi Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg gyda gwaith cyflwyno'r rhaglen frechu ac a ydy trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas â'r rheiny nad oes modd iddyn nhw gael y brechlyn, sef cleifion sglerosis ymledol (MS).

Nododd y Dirprwy Arweinydd, gan atgoffa'r Cyngor, fod gan y digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei ward, fel y nodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, gymal cyfrinachedd felly byddai'n parchu hwnnw.

Ymatebodd yr Arweinydd a Chyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned i'r ymholiadau mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen frechu a chadarnhawyd bod trafodaethau â'r asiantaethau perthnasol wedi bod yn cael eu cynnal ers peth amser. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio

adeiladau'r Cyngor, lleoliadau addas, cysylltiadau trafnidiaeth, staff a'r adnoddau fydd yn angenrheidiol i gefnogi gwaith cyflwyno'r rhaglen frechu. Nododd yr Arweinydd fod cyfarfodydd rheolaidd yn mynd yn eu blaenau ar draws Cwm Taf a byddai manylion pellach yn cael eu rhoi i Aelodau maes o law.

**51 Newid i Aelodaeth**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i roi gwybod i Aelodau am y newid i gynrychiolaeth Grŵp Annibynnol RhCT ar y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc. Gofynnodd i Aelodau nodi bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker yn cymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones ar y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ar unwaith.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r newid i gynrychiolaeth Grŵp Annibynnol RhCT ar y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc fel y nodwyd eisoes.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**